



Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf – 30 Medi 2015

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddiol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau yn chwarterol i aelodau Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa ac maent hefyd ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

TABL CYNNWYS

1	ARCHWILIADAU	3
2	MATERION ARFEROL.....	3
3	MATERION ANARFEROL.....	6
4	GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO	7
5	NEWYDDION GAN YR ONR.....	8
	CYSYLLTIADAU.....	9

1 ARCHWILIADAU

1.1 Dyddiadau archwiliadau

Fe gyflawnodd arolygydd safle'r ONR arolygiadau ar y dyddiad canlynol yn ystod y chwarter:

20, 21, 22, 23, 24 Gorffennaf 2015

10, 11, 12, 13, 14 Awst 2015

21, 22, 23, 24, 25 Medi 2015

Gwnaeth arolygydd trafndiaeth yr ONR archwiliadau ar 2 a 3 Medi 2015.

Gwnaeth arolygydd diogelu ymbelydredd yr ONR archwiliadau ar 11 a 12 Awst 2015.

Mynychodd arolygydd safle'r ONR ac arolygydd diogelwch tân yr ONR y cyfarfod adolygu argyfwng a chyfarfod cyswllt rheoleiddiol ar 15 ac 16 Gorffennaf 2015

Gwnaeth arolygydd diogelwch tân yr ONR archwiliad ar 21 Gorffennaf 2015.

Ymwelodd Prif Weithredwr dros dro'r ONR â'r safle ar 27 Gorffennaf 2015 ac fe'i cefnogwyd gan yr arolygydd safle ONR.

Mynychodd arolygydd safle'r ONR a nifer o arolygwyr arbenigol yr ONR gyfarfod ar 28 Gorffennaf 2015 ble cyflwynodd Magnox Ltd ei strategaeth ar gyfer trosi i weithrediadau gwagio tanwydd.

Ymwelodd Gweinidog Pobl Anabl y DWP â'r safle ar 5 Awst 2015 wedi ei gefnogi gan arolygydd safle'r ONR ac arweinydd is-raglen yr ONR ar gyfer safleoedd Magnox.

Mynychodd arolygydd safle'r ONR ac arolygydd diogelwch tân yr ONR Bwyllgor Ymgynghorol Cynllunio at Argyfwng (EPCC) Wylfa/Trawsfynydd ar 16 Medi 2015

Cyfarfu arolygydd trydanol yr ONR ac arolygydd Rheoli ac Offeryniaeth yr (C&I) ONR gyda Magnox Ltd ar 23 Medi i drafod amrywiol agweddau o'r newidiadau gofynnol ar gyfer trosiant i weithrediadau gwagio tanwydd.

2 MATERION ARFEROL

2.1 Archwiliadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- y Ddeddf Ynni 2013;
- y Ddeddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99) a'r Rheoliadau Rheoli lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r archwiliad yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn y cyfnod hwn, cwmpasodd arolygiadau rheolaidd safle (safle/goraf) y canlynol:

Archwiliad, cynnal a chadw, arolygu a phrofi;
Rheoli gweithrediadau, gan gynnwys rheoli a goruchwyllo;
Hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad staff;
Addasiadau i beiriannau, offer ac achosion diogelwch;
Parodrwydd ar gyfer argyfwng;
Diogelu radiolegol;

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, lle yr ystyriwyd bod gwelliannau yn angenrheidiol, gwnaeth y trwyddedai ymroddiadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd yr arolygydd safle yn monitro cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

Archwiliadau System Ddiogelwch

Mae'r ONR yn cynnwys arolygiadau o'r systemau sy'n cyfrannu at ddiogelwch adweithyddion gweithredol yn ychwanegol at archwiliadau cydymffurfio yn seiliedig ar yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded safle niwclear. Mae'r safle niwclear yn gofyn i'r holl safleoedd trwyddedig gael achos diogelwch parthed unrhyw weithrediadau a allai effeithio ar ddiogelwch. Ar gyfer yr adweithydd Magnox sy'n parhau'n weithredol yng ngorsaf bŵer Wylfa, nodwyd 30 o systemau i fod yn sail i archwilio systemau diogelwch er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r hawliadau a wneir arnynt gan yr achos diogelwch. Y bwriad yw archwilio diogelwch y systemau diogelwch perthnasol a nodir ar y safle yn systematig dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r ONR o'r farn y bydd yr ymagwedd hon yn darparu'r lefel ofynnol o sicrwydd y bodlonir gofynion yr achos diogelwch a bod y safle yn cael ei weithredu'n ddiogel.

Yn y chwarter hwn, y systemau diogelwch a archwiliwyd oedd y systemau Foltedd Uchel a system Porthi Boeler Argyfwng. Ar sail yr arolygiadau, pennwyd bod y systemau yn cael eu gweithredu a chynnal yn unol â gofynion yr achos diogelwch. Ble nodwyd meysydd i'w gwella, addawodd yr orsaf y byddai'n cymryd camau priodol i ddelio â'r rhain. Bydd yr ONR yn monitro cynnydd i gwblhau'r gwaith a gytunwyd.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach arolygiadau system yr ONR yng ngorsaf bŵer Wylfa a safleoedd trwyddedig niwclear eraill yn: <http://www.onr.org.uk/intervention-records/index.htm>

Archwiliad Rheoliadau Ymbelydriad Ïoneiddio

Cyflawnwyd yr archwiliad hwn i samplu cydymffurfiaid y trwyddedai gyda'i ofynion dan y Rheoliadau Ymbelydriad Ïoneiddio (IRR) 1999. Fe gasglwyd, o gyfanrwydd yr wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymyrraeth hon, bod y trwyddedai yn bodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol dan IRR 1999 ac mewn rhai achosion darparwyd tystiolaeth helaeth i arddangos ei fod yn rhagori ar y rhwymedigaethau hyn. Mae ei brosesau ar gyfer amcangyfrif dosys, rheoli a lleihau ac ati yn amlwg yn aeddfed ac wedi eu harfer yn dda. Mae'n fwriad clir gan y trwyddedai i gynnal yr holl brosesau hyn wrth newid o gynhyrchu pŵer i wagio tanwydd o'r adweithydd. Cynhelir archwiliad IRR arall yn ystod y cyfnod gwagio tanwydd cynnar i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni yn ymarferol.

Archwilio Trafnidiaeth

Archwiliodd Trafnidiaeth yr ONR Safle Wylfa Magnox parthed trafndiaeth ddiogel o ddeunydd ymbelydrol. Samplodd Arolygydd Trafnidiaeth yr ONR y trefniadau trafndiaeth a ddefnyddir yn Wylfa ar gyfer cludo deunydd ymbelydrol yn ddiogel, yn cynnwys y dogfennau system rheoli gysylltiedig. Ni phrofwyd pob rhan o System Rheoli Magnox Limited yn ystod yr archwiliad hwn, ond fe ddynododd y dogfennau hynny a samplwyd system aeddfed ar gyfer cludo deunydd ymbelydrol oddi ar y safle. Barn Arolygydd yr ONR yw bod y trefniadau trafndiaeth a ddefnyddir yn Wylfa ar gyfer deunydd ymbelydrol yn cael eu gweithredu fel y bwriedir. I gloi, ystyriwyd bod y trefniadau a ddefnyddir yn Wylfa i gludo deunydd ymbelydrol yn dderbyniol o ran trafndiaeth deunydd ymbelydrol ac fe'i hystyrir yn dderbyniol i ddibenion cydymffurfiad gyda gofynion y Rheoliadau ynghylch Cludo Nwyddau Peryglus a Defnyddio Offer Gwasgedd Cludadwy 2009 (fel y'i diwygiwyd 2001).

Achos Diogelwch Gwagio Tanwydd Ôl Gynhyrchu (PGDSC)

Trefnwyd y cyfarfod hwn i ddarparu adolygywr arbenigol yr ONR gyda throsolwg o'r PGDSC ac i ymgyfarwyddo gyda'r gweithrediad arfaethedig a throsiant dilynol i weithrediad gwagio tanwydd. Roedd y cyfarfod yn gyfnewid gwerthfawr rhwng yr ONR a Magnox Ltd gan roi cyfle i arbenigwyr o'r ddau sefydliad i nodi meysydd o ddi-ddordeb rheoleiddiol posibl. Bydd yr wybodaeth a ddarparwyd yn cael ei defnyddio i ddatblygu dull amlinelliad ar gyfer cyflawni asesiad o ddogfennaeth achos diogelwch perthnasol ac archwiliad o addasiadau arfaethedig i gefnogi caniatáu'r newid o weithrediad cynhyrchu i wagio tanwydd.

Rheolaeth Diogelwch Tân

Cynhaliwyd cyfarfod yn Wylfa gyda'r nod o asesu cynnydd yn erbyn prosiect hirsefydlog a pharhaus wedi ei gynllunio i gyfnewid ac uwchraddio'r goleuo argyfwng ar draws y safle cyfan, i asesu'r rheoliadau sy'n cael eu cynnig i ganiatáu cychwyn a gweithrediad y prosiect DSC4, ac i asesu rheolaeth diogelwch tân ar draws y safle, gan gynnwys paratoi strategaeth diogelwch tân ar gyfer cyfnod datgomisiynu cylch oes y safle.

Cynghorwyd Magnox Ltd y dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i gynnydd ar uwchraddiad y system oleuo argyfwng. Yn benodol y ffaith y gellid ystyried yr ardaloedd sydd eto i'w huwchraddio i fod yn arbennig o agored oherwydd anallu i'w cynnal yn ddigonol oherwydd materion darfodedigrwyd.

Nodwyd nifer o enghreifftiau o faterion sy'n arddangos y risg sy'n bodoli oherwydd diffyg perchnogaeth o'r Asesiad Risg Tân (FRA). Mae Magnox Ltd wedi cael gwybod bod angen unigolyn cyfrifol addas sy'n briodol ar gyfer yr adeilad/cyfleuster sy'n ymwybodol o gynnwys a disgwyliadau canfyddiadau'r FRA ar gyfer yr adeilad hwnnw.

Bydd y gofyniad ar gyfer rheolaeth diogelwch tân yn parhau wrth i'r safle fynd i gyfnod yn dilyn cynhyrchu gweithrediadau. Bydd angen adnoddau digonol i sicrhau y cyflawnir disgwyliadau'r rheoliadau perthnasol. Mae'r ONR wedi argymhell y dylai'r safle gychwyn paratoi strategaeth diogelwch tân y cyfnod datgomisiynu.

Cyfarfod Trydanol, Rheolaeth ac Offeryniaeth

Diben y cyfarfod hwn oedd monitro cynnydd yn erbyn y camau a gymerwyd gan Magnox Ltd i ddelio ag addasiadau trydanol, rheolaeth ac offeryniaeth (E,C&I) i gefnogi: i) newidiadau i ffurfweddiad y gwaith yn dilyn cynhyrchu ac wrth wagio tanwydd ii) gallu staffio E,C&I i fodloni'r gofynion cyfnod gwagio tanwydd. Ar y cyfan, ystyriwyd bod yr agweddau trydanol yn foddhaol ar y cam hwn. Bwriedir cynnal ymyraethau pellach yn y maes hwn yn hwyrach yn y flwyddyn i gefnogi caniatâd y trosiant o gynhyrchu i wagio tanwydd

2.2 Gwaith arall

Prif Weithredwr Dros Dro'r ONR – Ymweliad Safle

Yn rhan o raglen y Prif Weithredwr Dros Dro o ymgysylltu â thrwyddedigion, trefnwyd cyfarfod ac ymweliad safle i roi trosolwg o weithrediadau presennol a dyfodol Magnox Ltd yn Wylfa.

Darparodd yr ymweliad dystiolaeth o wybodaeth, cymhwyster a pharodrwydd gweladwy i barhau gyda safon uchel o ddiogelwch niwclear yn ystod cyfnod byr cynhyrchu ar y safle. Cadarnhaodd Prif Weithredwr Dros Dro'r ONR bod yr ymweliad yn arddangosiad clir bod y safle wedi ei reoli'n dda, ei weithredu'n ddiogel a'i staffio'n llawn.

Gweinidog dros Bobl Anabl y DWP – Ymweliad Safle

Daeth staff yr ONR gyda Gweinidog y Llywodraeth Justin Tomlinson AS i orsaf bŵer Wylfa. Mr Tomlinson yw'r Gweinidog yn y DWP sy'n gyfrifol am yr ONR. Roedd yr ymweliad yn gyfle i esbonio amrywiol agweddau o gynhyrchu, paratoi a chael gwared ar danwydd o'r safle a throsi i ddigomisiynu, gwaith adeiladu'r adweithydd newydd a'i ryngweithiad gyda'r safle presennol a darparu adnoddau ar gyfer y gweithgareddau hyn.

Cyfarfod Cyswllt Rheoleiddio

Mynychodd arolygwyr yr ONR gyfarfod i ganiatáu i gynrychiolwyr awdurdodau sy'n arfer pwerau rheoleiddio ar safle Wylfa i drafod materion o ddi-ddordeb gyda chyfoedion yr orsaf. Daeth cynrychiolwyr o'r orsaf i'r cyfarfod, ynghyd â Magnox Limited, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac arolygwyr diogelwch yr ONR. Roedd y cyfarfod yn gyfle gwerthfawr i awdurdodau rheoleiddiol gwrdd â chynrychiolwyr y safle a nodi unrhyw feysydd ble gellid gwella rhyngweithio. Bydd yr ONR yn parhau i fonitro perfformiad diogelwch yr orsaf, a chysylltu gyda'r sefydliadau rheoleiddiol eraill fel fo angen.

Pwyllgor Ymgynghori Cynllunio ar gyfer Argyfwng Wylfa a Thrawsfynydd

Mynychodd Arolygydd Safle'r ONR ac Arolygydd Diogelwch Tân yr ONR gyfarfod o bwyllgor ymgynghori cynllunio ar gyfer argyfwng yr orsaf. Roedd y cyfarfod yn gyfle i'r ONR arsylwi ar fusnes y cyfarfod, ac ateb unrhyw gwestiynau yn ymwneud â rheoleiddio trefniadau argyfwng yng ngorsaf bŵer Wylfa.

3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Materion penodol i'w nodi yn ystod y cyfnod oedd:

Methiant y Cylchredwr Nwy

Yn ystod un o'r gwiriadau rheolaidd ar un o'r systemau Cylchredu Nwy, ni wnaeth rhai o'r eitemau offer ategol weithredu fel y disgwylwyd. Rhywbeth oedd o gryn bryder oedd y ffaith na wnaeth prif fodur y Cylchredwr Nwy fethu pan ddylai,

Trafodwyd y digwyddiad hwn gyda Rheolwr Peirianeg y safle, sydd wedi cadarnhau ei fod wedi ei adrodd oherwydd ansicrwydd ynghylch manylion am y methiant. Cadarnhaodd ymchwil pellach nac oedd unrhyw arwyddocâd diogelwch i'r digwyddiad ac y gallai ac y byddai'r swyddogaeth ddiogelwch wedi ei darparu ar alw. Yn seiliedig ar yr wybodaeth hon, mae'r penderfyniad ceidwadol i adrodd i'r ONR yn ymddangos i fod yn ddoeth, ond yn dilyn ymchwiliad gan Magnox Ltd, mae'n annhebygol y bydd y digwyddiad yn bodloni meini prawf adrodd rheoleiddiol. Ni chynigiwyd unrhyw weithredu pellach.

Awyrennau yn Hedfan yn Isel

Hedfanodd un awyren yn isel dros y Safle. Oherwydd y sŵn uchel a'r dirgryniadau, credwyd y gallai fod wedi bod dan y terfyn hedfan ar gyfer y safle.

Trafodwyd y digwyddiad hwn gyda rheolwr peirianeg Wylfa. Mae Magnox Ltd wedi adrodd ar y digwyddiad i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Awyrlu'r Fali. O brofiad blaenorol, ni ddisgwylir deryn ymateb gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Ni chynigiwyd unrhyw weithredu pellach.

Archwiliad Euratom Wylfa – Eitemau Heb eu Datgan

Yn ystod archwiliad Euratom o ffynonellau ymbelydrol gyda deunydd niwclear, canfuwyd bod yna ddwy eitem na ddatganwyd i Euratom y dylid fod wedi gwneud gan eu bod yn cynnwys deunydd niwclear. Roedd Nitrad Wranyl a Nitrad Thorium yn cael eu cadw yn y storfa ffynhonnell fondioig na ddefnyddir. Gofynnodd yr arolygydd i'r eitemau hyn gael eu hadrodd yn yr Adroddiad Newid Stocrestr nesaf fel achosion damweiniol. Nodyn: Roedd yr eitemau hyn yn hysbys ond heb eu datgan yn flaenorol.

Mae'r digwyddiad hwn yn ymwneud â chanfyddiad arall o ddeunydd niwclear. Tua blwyddyn yn ôl fe adroddodd Wylfa ei fod wedi canfod rhai ffynonellau ymbelydrol bach. Cynhwyswyd y rhain ar y stocrestr. Roedd Euratom eisiau gwirio'r ffynonellau hyn yn ystod y Gwiriad Stocrestr Gorfporol ddiweddar. Yn ystod y gwiriad hwn, daeth yr arolygydd Euratom o hyd i ddwy eitem arall yn y cwpwrdd storio ffynhonnell. Nid yw ymchwiliad dilynol o storfeydd ffynhonnell tu fewn a thu allan i adeilad yr adweithydd wedi darganfod unrhyw eitemau eraill heb eu datgan.

Adroddiad Misol Euratom

Wrth baratoi Adroddiad Mantoli Deunydd (MBR) blynyddol Euratom canfuwyd gwall a'i olrhain yn ôl i gyfrifyddu dwbl o 60 elfen o danwydd IRX Chwith (RIRX) a ryddhawyd yn rhan o'r treial gwagio tanwydd Adweithydd 2. Cafodd y rhain eu cynnwys ar gam yn y datganiadau ar gyfer Adweithydd 1 ac Adweithydd 2 ar Adroddiad Newid Stocrestr (ICR) Ebrill 2015.

Canfuwyd bod 60 elfen Cyfnewid Rhwng Adweithyddion (IRX) a ryddhawyd o Adweithydd 2 yn Ebrill 2015 wedi adrodd amdanynt ddwywaith, gan iddynt fynd trwy Adweithydd 1 yn flaenorol. Arweinydd hyn at yr FRS yn dyblygu'r cynnwys llosgi a Pu isotopig i'r elfennau hyn (nid oedd y system wedi ystyried y dylai'r elfennau tanwydd wedi eu rhyddhau o Adweithydd 1 fod wedi eu nodi fel tanwydd a ddisbyddwyd ac nid IRX Chwith (RIRX) a aeth trwy Adweithydd 2 wedyn). Nodwyd cywiriad ar yr adroddiadau diogelwch ffurfiol yng Ngorffennaf 2015 (dileu'r llinellau cyfrifyddu dwbl). Ni fydd unrhyw wall cyfrifyddu tebyg gyda'r tanwydd IRX/RIRX sy'n weddill (y deallir y mae yna 57 sianel ohono) yn digwydd yn y dyfodol oherwydd, wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu, bydd yr holl elfennau tanwydd ar y safle yn cael newid categori i arbelydredig (hyd yn oed yr elfennau hynny sydd wedi eu halogi yn unig ond fydd yn cael eu hanfon i Sellafield).

Mae'r digwyddiad hwn yn ychwanegol i'r problemau a nodwyd yn flaenorol gyda'r FRS, fodd bynnag, hyn yn hyn ni chafwyd ymateb ffurfiol gan Euratom.

Rhyng-glo Peiriant Trosglwyddo Tanwydd

Canfuwyd y ddyfais rhyng-glo sy'n atal gweithrediad y Peiriant Trosglwyddo, tra bydd y bont fynediad wedi ei thynnu i ffwrdd, yn rhydd. Gallai hyn ganiatáu i'r Peiriant Trosglwyddo gael ei yrru dros y bwll agored unwaith bydd y bont wedi ei thynnu.

Adroddwyd am y digwyddiad hwn tuag at ddiwedd Medi 2015, ac mae ymchwiliad gan Magnox Ltd yn parhau. Mae Rheolwr Peirianeg Wylfa wedi cadarnhau yr ystyrir hyn i fod yn fater difrifol ac y bydd yn hysbysu'r ONR am y casgliadau. Bydd yr ONR yn ystyried ymhellach a oes angen gweithredu rheoleiddiol wedi derbyn adroddiad ymchwiliad Magnox Ltd.

4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwyddedu safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd; gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant fod ar ffurf arall. Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Ni chyhoeddwyd unrhyw Offerynnau Trwydded na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod.

5 NEWYDDION GAN YR ONR

Ymdeoliad y Prif Arolygydd Niwclear

Cyhoeddodd Dr Andy Hall, y Prif Arolygydd Niwclear cyntaf i ddal y swydd statudol hon, ei benderfyniad i ymddeol o'r ONR yn Nhachwedd 2015 a nes y bydd yn ymddeol bydd ar gyfnod o absenoldeb trugarog am resymau personol. Mae Bwrdd yr ONR, gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi penodi Dr Richard Savage yn Brif Arolygydd Niwclear Dros Dro, wrth gwblhau'r broses i lenwi'r swydd yn barhaol. Yn flaenorol roedd Richard yn Bennaeth y Rheolydd Amddiffyn Diogelwch Niwclear cyn ymuno â'r ONR yn ei rôl bresennol fel Dirprwy Brif Arolygydd Niwclear.

Cylchgrawn Regulation Matters

Gellir cael cipolwg ar waith yr ONR fel rheolydd annibynnol i'r diwydiant niwclear yn Regulation Matters. Mae'r cyhoeddiad ar-lein chwarterol (<http://www.onr.org.uk/regulation-matters.htm>) yn adrodd ar themâu a datblygiadau allweddol ym mhob un o raglenni rheoleiddio'r ONR ac yn darparu diweddariad ynglŷn â'r newidiadau i ddod yn ONR. I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, gallwch hefyd droi at y wefan a chofrestru ar gyfer ein e-fwletin. <http://www.onr.org.uk/index.htm>.

CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersi
L20 7HS

gwefan: www.onr.org.uk

e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2015

Os ydych yn dymuno aildddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch www.onr.org.uk/copyright.htm am fanylion.
Cyhoeddwyd 10/15

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.